# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun Mawrth 8fed 2021

Presennol: Henry Hughes, Siân Parri, Gareth Jones, Alan Hughes, John Davies, Chris Brady, Humphrey Williams, Alyn Williams

Ymddiheuriadau:

1. Cadeiriwyd gan Siân Parri ac estynnodd groeso i bawb, yn arbennig i'r Cynghorydd newydd Alyn Williams. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.
2. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Cynghorwyr Newydd** – Derbyniodd y ddau Gynghorydd newydd Datganiad Derbyn ynghyd a chopi o'r Rheolau Sefydlog.

3. Gohebiaeth:
   a/ **Cais Cynllunio C21/0135/46/DT Cae'r Ffynnon, Llaniestyn:**

   Gwrthwynebu'r cais ar sail pryder ynglŷn â lleoliad a maint y datblygiad, teimlir y dylai'r adeilad fod yn agosach i'r tŷ, ac oherwydd ei faint y byddai yn cael effaith ar y tirlun. Hefyd pryderir am yr effaith a fyddai ar y lon fawr o ganlyniad i godi'r adeilad ar y safle bwriadedig.

   b/ **Cais Cynllunio C19/0746/46/LL Trefgraig Isaf, Rhydlios**

   Rhoi sylwad, gofalu fod yr adnoddau ymolchi a thoiledau yn briodol cyn ychwanegu'r 8 carafán symudol.

4. **Unrhyw fater arall**: **Baw Ci cynyddol ar Barc Main Garnfadryn**.
Trafodwyd y broblem gynyddol o faw ci ar lwybr Parc Main Garnfadryn, ynghyd a’r ffaith fod unigolion yn rhoi’r bagiau baw yn y bin halen sydd ar y llwybr. Trafodwyd y posibilrwydd o osod arwyddion a chael bin pwrpasol ple gellir rhoi'r bagiau. Byddai cost misol i wagio’r bin – byddwn yn trafod y mater eto mis nesaf.

5. Cymorth Ariannol – Rhannu’r Praesept.
Cyflwyodd y Clerc adroddiad ariannol o’r sefyllfa fel ac y mae diwedd Chwefror, penderfynwyd rhannu fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Mynwentydd Bro Madryn | - £600.00 |
| Mynwent Tudweiliog | - £500.00 |
| Mynwent Dinas | - £200.00 |
| Canolfan Llaniestyn | - £100.00 |
| Canolfan Tudweiliog | - £100.00 |
| Macmillan yng Ngwynedd | - £100.00 |
| Clwb Ffermwyr Ifanc Eryri | - £100.00 |
| Clwg Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen | - £100.00 |
| Radio Ysbyty Gwynedd | - £100.00 |

Cynhelir y cyfarfod nesar ar Zoom Nos Lun 12ed Ebrill 2021
am 7.30yh